

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 12 Chwefror 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 261(v4)

---

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Adrannau Brys y GIG

(60 munud)

NDM7266 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan gleifion a chlinigwyr ledled Cymru ynghylch perfformiad a dyfodol adrannau achosion brys y GIG.



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

2. Yn gwrthod cynigion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a allai arwain at roi terfyn ar wasanaethau 24 awr a gaiff eu harwain gan feddygon ymgynghorol yn adran achosion brys Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd er mwyn atal unrhyw achos o israddio neu gau adrannau achosion brys yng Nghymru yn ystod y Cynulliad hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod y datganiad trawsbleidiol ar Ddyfodol Gofal Brys Diogel yng Nghwm Taf Morgannwg.

2. Yn cydnabod yr angen i'r bwrdd iechyd fod yn agored ac yn dryloyw wrth ymgysylltu â'r cyhoedd, clinigwyr, y cyngor iechyd cymuned, cynrychiolwyr etholedig, staff a'u hundebau, i lywio eu penderfyniad ynghylch darparu pob math o ofal heb ei drefnu yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau brys.

3. Yn cydnabod bod yn rhaid i unrhyw ddarpariaeth gofal heb ei drefnu fod yn gadarn, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

[Yr Ymgyrch dros Ofal Brys Diogel ar draws Cwm Taf Morgannwg](#)

**Gwelliant 2 – [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu cynllun cynhwysfawr ar gyfer cynyddu'r gweithlu clinigol, gyda ffocws penodol ar arbenigeddau ac ardaloedd daearyddol y mae'n anodd recriwtio iddynt, megis mewn adrannau achosion brys, fel na ellir byth ddefnyddio prinder staff i gyfiawnhau cau a newid gwasanaethau.

**Gwelliant 3 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi adran damweiniau ac achosion brys barhaol gydag adnoddau llawn yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

#### **Gwelliant 4 – [Mick Antoniw \(Pontypridd\)](#)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gwrthod cynigion gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ddod â gwasanaethau damweiniau ac achosion brys 24 awr o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg i ben ac yn galw ar y Bwrdd Iechyd i:

- a) diystyru cau'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg neu sefydlu uned mân anafiadau 24 awr yn lle'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys presennol;
- b) adfer yr opsiwn o gynnal gwasanaeth damweiniau ac achosion brys llawn o dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru;
- c) cyflwyno cynigion eraill ar gyfer gwasanaethau iechyd cymunedol, gan gynnwys gwelliannau i'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ac ymestyn oriau agor yr uned mân anafiadau yn Ysbyty Cwm Rhondda ac Ysbyty Cwm Cynon, a allai leddfu'r pwysau ar bob un o'r tair adran damweiniau ac achosion brys.

**Cyd-gyflwynwyr**

[Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#)

[Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#)

[Vikki Howells \(Cwm Cynon\)](#)

## **4 Cwestiynau Amserol**

(20 munud)

Ni dderbynniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## **5 Datganiadau 90 Eiliad**

(5 munud)

## **6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Gwasanaethau Cyhoeddus Ar-lein ac All-lein.**

(60 munud)

### **NDM7263 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mwy a mwy o wasanaethau ar gael ar-lein yn unig.
2. Yn cydnabod nad oes gan bawb fynediad i'r rhyngrwyd.
3. Yn cydnabod nad yw pawb yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r rhyngrwyd.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:
  - a) sicrhau bod dewisiadau all-lein ar gael o ran gwasanaethau cyhoeddus ar-lein, megis gyda'r system adnewyddu tocynnau bws; a
  - b) trafod gyda banciau, busnesau a sefydliadau eraill i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn cael eu hynysu os mai dim ond gwasanaethau ar-lein a gynigir.

### **Cyd-gyflwynwyr:**

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

**Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

**Sian Gwenllian (Arfon)**

**Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

**Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)**

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**

Cefnogir gan:

Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Huw Irranca-Davies (Ogwr)

**7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd – Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau**

(60 munud)

NDM7267 [John Griffiths \(Dwyrain Casnewydd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Gwaith dilynol ar gysgu ar y stryd – Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau', a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2019.

Noder: [Gosodwyd](#) ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2020.

**8 Cyfnod pleidleisio**

**9 Dadl Fer**

(30 munud)

NDM7268 [Alun Davies \(Blaenau Gwent\)](#)

Cymoedd technoleg, yr A465 a strategaeth ddiwydiannol ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy ym Mlaenau'r Cymoedd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2020